ADRAN 4

Dysgu a datblygiad parhaus

Mae dysgu, datblygu a hyfforddiant yn parhau trwy gydol bywydau gweithio pobl. Bydd angen i'ch Cynorthwywyr Personol ddeall ffyrdd newydd o weithio neu ddysgu am wahanol agweddau fel anabledd, cydraddoldeb neu iechyd meddwl, er enghraifft.

Rôl allweddol i chi fel cyflogwr yw cynorthwyo eich Cynorthwywyr Personol i nodi eu hanghenion dysgu a'r modd y bydd y rhain yn cael eu bodloni. Y broses sefydlu yw'r cam cyntaf yn dysgu a datblygiad Cynorthwywyr Personol. Mae'n bwysig eu bod yn parhau i ddysgu er mwyn eu galluogi i ddarparu cefnogaeth a chymorth o ansawdd da.

Mae cyfle da i drafod dysgu a datblygiad parhaus fel rhan o oruchwylio ac adolygu. Maent yn ddulliau o reoli'r modd y mae cyflogeion yn gwneud eu gwaith ac yn ffordd gadarnhaol o gynorthwyo a chymell gweithwyr i ddarparu gwasanaeth o safon.

Mae **goruchwylio** yn ddull effeithiol o gefnogi datblygiad eich Cynorthwy-ydd Personol. Mae rhai cyflogwyr sy'n cynnal **adolygiad** blynyddol i fyfyrio ar gynnydd dros gyfnod yn ystyried hyn yn fuddiol.

Gallwch ddefnyddio neu addasu'r ffurflen oruchwylio neu'r enghraifft o ffurflen wedi'i chwblhau. Ceir adnoddau eraill a ddatblygwyd i gefnogi goruchwylio fel **Goruchwylio ac Arfarnu Da: Canllaw i Oruchwylio ac Arfarnu Effeithiol i'r rhai sy'n gweithio ym maes Gofal Cymdeithasol**. http://www.cgcymru.org.uk/rheolwr-cartrefi-gofal-oedolion/
Mae'n cynnwys gwybodaeth ar gyfer y sector gofal cymdeithasol a thempledi defnyddiol (ffurflenni) gan gynnwys cytundeb goruchwylio, cofnod o gyfarfod goruchwylio a ffurflen adolygu neu arfarnu. Mae hefyd ar gael fel Ap i'w lawr lwytho i ffôn clyfar neu lechen o http://www.cgcymru.org.uk/aps/

Gall eich gwasanaeth cymorth taliadau uniongyrchol lleol neu sefydliadau cymorth eraill ddarparu gwybodaeth ac arweiniad hefyd.